Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 44/2018
DYDDIAD CYHOEDDI 19/07/2018

Gwerthusiad o Hyfforddeiaethau SHELL 2015 - 2019: Adroddiad Interim

Crynodeb Gweithredol

1. Y Cefndir

1. Mae'r adroddiad interim hwn yn cynnwys y canfyddiadau o'r cam cyntaf o ymchwil a wnaed gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith (L&W) a Wavehill Research i werthuso rhaglen Hyfforddiaethau Llywodraeth Cymru.

2. Nod y gwerthusiad cyflawn yw asesu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith ail gam y Rhaglen Hyfforddiaethau am y cyfnod rhwng Ionawr 2015 a Mawrth 2019. Bydd yn ystyried a chyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) a Dwyrain Cymru (DC), yn ogystal â'r rhaglen yn gyffredinol. Yn benodol, mae'r gwerthusiad yn archwilio:

   - Yr effaith y mae'r rhaglen wedi ei gael o ran ei chanlyniadau caled a meddal.
   - Y gwerth y mae'r rhaglen gyffredinol wedi ei ychwanegu trwy ddadansoddiad cost-budd.
   - Gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyflwyno rhaglenni tebyg yn y dyfodol a sut y gall arfer da gael ei ail adrodd ac y gellir cael budd ohono.

3. Mae'r gwerthusiad yn cael ei gyflawni rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2019. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

   - Adolygiad ar ddesg a dadansoddi data eilaidd.
   - Dadansoddiad o ddata 'Arolwg Cyfranogwyr ESF' Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru.
   - Cyfweliadau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol.
   - Cyfweliadau gyda darparwyr ac isgontractwyr sy'n cyflawni'r rhaglen Hyfforddiaethau.
   - Cyfweliadau gyda chyflogwyr a dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.
   - Asesiad gwrthffeithiol ac effaith.
   - Dadansoddi cost-budd.

4. Mae'r adroddiad interim hwn yn cynnwys y canfyddiadau o gamau cyntaf y gwerthusiad, a gwblhawyd erbyn Hydref 2017, y casgliadau interim a'r argymhellion. Mae'n seiliedig ar yr elfennau canlynol:
   - Adolygiad ar ddesg a dadansoddi data eilaidd cynnar o'r Adroddiadau Cynnydd Allbwn Canlyniad ar gyfer hawliad ESF Ionawr 2017.
   - Cyfweliadau manwl gyda saith o Swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid.
   - Cyfweliadau manwl gydag 17 o ddarparwyr Hyfforddiaethau, gan gynnwys naw o gontractwyr arweiniol ac wyth o isgontractwyr (gan gynnwys contractwyr preifat a thrydydd sector).

2. Canfyddiadau o weithgareddau asesu ac adolygu ar ddesg

5. Parhaodd y gyfran o rai 16-18 mlwydd oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant, heblaw am ostyngiad yn 2005 a 2006, dros 10 y cant am y ddau ddegawd diwethaf; dengys y ffigyrau dros dro diweddaraf (diwedd 2016) ei fod ar 10.4 y cant.[1]

6. Gall statws NEET tymor hir gael effeithiau niweidiol difrifol ar ragolygon unigolyn yn y farchnad waith yn y dyfodol, ei iechyd a nifer o ddeilliannau eraill.

7. Mae hyfforddiaethau yn cyfuno cymysgedd o hyfforddiant sgiliau meddal a hanfodol gyda chyfnod o brofiad gwaith. Mae'r rhaglen bresennol, sy'n canolbwyntio ar rai 16-19 mlwydd oed, yn anelu at leihau'r gyfran o bobl ifanc yng Nghymru sydd yn NEET a hwyluso eu symud ymlaen i waith neu addysg bellach.

8. Yn Rhagfyr 2017, dengys data EDMS bod GCC wedi cyflawni dwy ran o bump (35.3%) o darged 2014-2022 o 25,698 wedi cwblhau hyfforddiaeth a bod DC wedi cyflawni bron i chwarter (24.5%) o'r targed o 18,418 yn cwblhau.

9. Nid yw'r un o'r ddau ranbarth ar y llwybr i gyrraedd y targed o 28 y cant yn mynd i swyddi (17.4% yn GCC a 20.7% yn DC) ac nid yw DC ar y llwybr i gyrraedd y targed o 56 y cant o Hyfforddeion yn cael cymwysterau wrth gwblhau (53.7%). Ond mae GCC wedi mynd tu hwnt i'r targed hwn â (60.7%) yn cael cymwysterau wrth gwblhau ac mae'r ddau ranbarth yn mynd tu hwnt i'w targed o 20 y cant yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant (49.6% yn GCC a 53.8% yn DC).

10. Nid yw'r un o'r ddau ranbarth wedi cyrraedd eu targed o 20.6 y cant o Hyfforddeion yn datgan bod ganddynt anabledd a/neu anhawster dysgu, neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gwaith (19.7% yn GCC a 18.6% yn DC) Ond mae'r ddau ranbarth wedi mynd tu hwnt i'r targed o 1 y cant o Hyfforddeion yn datgan bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu (1% yn GCC a 1% yn DC). Ar gyfer DC, mae cyfranogiad BME yn mynd ymhell tu hwnt i'w targed o 2.2 y cant (10.3%), er nad yw GCC ar y llwybr i'w gyrraedd ar hyn o bryd (1.5%). Yn y ddau ranbarth, mae cyfranogiad menywod dros y targed o 50 y cant, er ei fod yn uwch yn DC (57.0%) na GCC (54.6%).

11. O Ebrill 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn disodli'r set bresennol o raglenni sgiliau cyflogadwyedd gan gynnwys Hyfforddiaethau, Twf Swyddi Cymru, ReAct a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd gydag un rhaglen cyflogadwyedd newydd – Cymru'n Gweithio. Bydd y rhaglen Cymru'n Gweithio yn cefnogi unigolion sy'n 16 oed a hŷn ac yn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i symud tuag at, a mynd i, waith cynaliadwy.

[1] 2017, Pobl ifanc ddim mewn addysg Gwaith neu hyfforddiant (NEET), Gov.Wales

3. Canfyddiadau trwy gyfweliadau manwl gyda swyddogion, rhanddeiliaid a darparwyr

12. Roedd darparwyr, swyddogion a phartneriaid ar y cyfan yn gadarnhaol am y model Hyfforddiaethau, gan ystyried ei fod yn effeithiol i'r cohort o bobl ifanc ac yn garreg gamu ddefnyddiol i symud tuag at waith, gan roi blas i'r dysgwyr o sector neu alwedigaeth benodol a'u galluogi i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, yn arbennig yng nghyswllt eu cyflogadwyedd.

13. Roedd y darparwyr yn canmol yr hyblygrwydd mawr yn y rhaglen Hyfforddiaethau, gan eu galluogi i ddefnyddio'r ddarpariaeth (naill ai trwy ei darparu yn uniongyrchol neu trwy ddarparwyr trydydd parti) sy'n bodloni anghenion pobl ifanc orau.

14. Disgrifiodd y mwyafrif o'r darparwyr ostyngiad cyson yn y nifer o bobl ifanc sy'n cael eu recriwtio ar y rhaglen Hyfforddiaethau. Yn nodweddiadol, roedd y darparwyr yn gweld bod y gostyngiad mewn niferoedd yn adlewyrchu'r diffyg hyrwyddo ar y rhaglen. Cyfeiriodd rhai hefyd at newidiadau yn y meini prawf cymhwyster.

15. Gwelir y cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol fel llwybr allweddol i hyrwyddo'r rhaglen ac maent yn cael eu defnyddio yn weithredol gan yr holl ddarparwyr ond yn arbennig felly gan y rhai yn y sector preifat; cyfeiriodd nifer o'r darparwyr hefyd at 'ar dafod leferydd'.

16. Cododd y mwyafrif o ddarparwyr bryderon am y broses gyfeirio. Roedd rhai yn amau pa mor ddiduedd yw Gyrfa Cymru ar sail yr amgyffrediad bod diffyg cydbwysedd yn y nifer o gyfeiriadau i bob darparwr.

17. Mynegodd y rhan fwyaf o swyddogion bryderon am pa mor briodol oedd cyfeirio at ffrydiau gwahanol, ac roedd yn farn gyffredin nad oedd y rhai oedd fwyaf o angen y ffrwd Ymgysylltiad o angenrheidrwydd yn mynd ar y rhaglen oherwydd cyndynrwydd rhai darparwyr i gymryd "unigolion mwy heriol".

18. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith darparwyr a phartneriaid bod pobl ifanc sy'n ymwneud â Hyfforddiaethau yn dangos set gynyddol gymhleth o anghenion a rhwystrau, gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael eu hystyried yn neilltuol o amlwg.

19. Mae darparwyr yn amrywio o ran y graddau y maent yn defnyddio'r gyllideb Cefnogaeth Dysgu Ychwanegol, a rhai darparwyr ddim yn ei defnyddio o gwbl ac eraill yn targedu'r adnoddau hyn yn weithredol. Roedd darparwyr nad oeddynt yn defnyddio'r cyllidebau hyn yn cyfeirio at gymhlethdod, argaeledd adnoddau a diffyg gwybodaeth am gefndir yr Hyfforddeion fel rhesymau am hyn.

20. O ran themâu trawsbynciol, roedd y darparwyr yn cytuno bod Hyfforddiaethau yn helpu i daclo tlodi trwy roi cyfleoedd gwaith i bobl ifanc a thrwy daclo rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith, a bod cyfleoedd cyfartal yn elfen sydd wedi ymwreiddio ar draws darparu hyfforddiant. Datblygu cynaliadwy oedd y thema drawsbynciol y cafwyd lleiaf o dystiolaeth ohoni yn y cyfweliadau gyda darparwyr. Dynododd y rhan fwyaf o'r darparwyr eu hymrwymiad i gefnogi'r iaith Gymraeg trwy anelu at gael o leiaf un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg.

21. Roedd y swyddogion a'r partneriaid yn hyderus y byddai'r rhaglen yn cyflawni ei thargedau cyffredinol. Ond, roedd pryderon bod cyfranogiad yn bennaf ar Ymgysylltiad a Lefel 1 a bod cynnydd dilynol yn aml o fewn y rhaglen neu ar gyrsiau addysg bellach. Mynegodd y rhan fwyaf o'r swyddogion a'r partneriaid bryderon am y ffrwd Pont at Waith, gydag ymwybyddiaeth bod y nifer sy'n dilyn y ffrwd hon yn isel a all gyfyngu ar gyfleoedd i symud ymlaen i gyflogaeth.

4. Argymhellion Interim

Argymhellir:

1. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd ac enghreifftiau o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ddarparwyr o gwmpas gwaharddiadau, i'w galluogi i ddeall y rheolau a'r gofynion am gyswllt yn ystod cyfnod o waharddiad. Byddai hyn yn atal y cyfranogwyr sydd angen cefnogaeth arbenigol rhag gorfod ail ddechrau'r rhaglen yn ddiangen.

2. Modelau partneriaeth effeithiol rhwng Gyrfa Cymru a'r darparwyr yn cael eu rhannu yn fwy eang trwy gyfarfodydd darparwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hailadrodd. Argymhellir hefyd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r adnoddau a ddyrennir i'r prosesau cyfeirio, i sicrhau proses fwy effeithlon sydd wedi ei lliflinio yn well.

3. Llywodraeth Cymru i ddatblygu a rhannu modelau ac enghreifftiau o bartneriaethau amlasiantaethol effeithiol, er enghraifft, pan fydd awdurdodau lleol yn ymwneud â phroses gyfeirio YEPF, i roi gwybodaeth i weithio mewn partneriaeth wrth gyflawni'r rhaglen Cymru'n Gweithio newydd.

4. Llywodraeth Cymru i archwilio'r defnydd ehangach o negeseuon positif, astudiaethau achos a deunydd marchnata i hyrwyddo Hyfforddiaethau. Gallai hyn gael ei deilwrio yn ôl cymhelliad a buddiannau gwahanol randdeiliaid, fel ysgolion, rhieni a phobl ifanc, i hyrwyddo'r rhaglen a lleihau unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â hi ar hyn o bryd.

Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad gwerthuso llawn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2019. Mae camau nesaf y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o ddata 'Arolwg Cyfranogwyr ESF', cyfweliadau gyda chyflogwyr a dysgwyr, astudiaeth gwrthffeithiol ac asesiad effaith a dadansoddiad cost-budd.

Nicola Aylward, Elizabeth Davies, & Corin Egglestone
Learning & Work Institute

Oliver Allies
Wavehill Research

Aylward, N., Davies, E., Egglestone, C., & Allies, O. (2018) *Gwerthusiad o Hyfforddeiaethau SHELL 2015 - 2019: Adroddiad Interim.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 44/2018
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-traineeships-programme/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Kimberley Wigley
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Kimberley.Wigley@llyw.Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-700-2